

# Dysgu mwy am greadur pwll

Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad Dysgu

- Dysgu am yr amrywiaeth o greaduriaid sy'n bodoli.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth** | Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny. |
| **TGCh** | Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu. |
| **ADCDF** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Ymchwilio i greadur pwll.
- Trefnu gwybodaeth i lunio adroddiad.
- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid.
- Defnyddio llyfrau a ffynonellau gwefan.
- Annog y disgyblion i roi adroddiad llafar grŵp ar un creadur.

## Adnoddau

Deunyddiau ymchwil, ystod o lyfrau o lyfrgell yr ysgol, y llyfrgell leol neu'r E.L.R.S

Ystod o wefannau - chwilio 'Google' i ddod o hyd i wefan addas ymlaen llaw

Y ffrâm adroddiad llafar wag (o'r ffolder adnoddau)

Taflen “Y Creadur dan Sylw”

Templedi

# Dysgu mwy am greadur pwll

**Amlinelliad o'r Wers**

- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid pwll mae'r dosbarth yn eu hadnabod.

Pa anifeiliaid ydych chi wedi'u gweld mewn pwll?

- Darllen dros y daflen "creadur dan sylw", yna esbonio y dylent geisio trefnu'r wybodaeth gan ddefnyddio'r templed.
- Gofyn i'r dosbarth, mewn parau neu grwpiau bach, ddefnyddio'r wybodaeth enghreifftiol i greu proffil o greadur arall.
- Gan ddefnyddio cyfeirlyfrau/ peiriannau chwilio'r rhyngrwyd, maent yn ymchwilio i'w creadur o ddewis, gan gael gwybod -

    y math o gynefin pwll y byddai'n byw ynddo;

    y bwyd mae'n ei fwyta ac unrhyw ysglyfaethwyr naturiol;

    unrhyw addasiadau sydd ganddo er mwyn gweddu i'w amgylchedd;

    y math o amodau mae eu hangen arno er mwyn byw.

- Yna, maent yn creu proffil creadur pwll, gan ddefnyddio naill ai'r templed a roddir neu drwy ddylunio un eu hunain.
- Ar ôl i'r disgyblion gyflawni eu proffiliau creadur, trafodwch beth maen nhw wedi'i ddysgu. A wnaethant ddarganfod unrhyw fygythiadau mae'r anifeiliaid yn eu hwynebu?

Pa gynefinoedd sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion y creaduriaid hyn?

Ydy hi'n hawdd adnabod yr holl greaduriaid hyn?

Y Creadur dan Sylw

# Neidr y Glaswellt

Enw arall ar neidr y glaswellt yw neidr y gwair neu'r neidr ddŵr, a'r enw Lladin yw *Natrix natrix*.

Mae lliw neidr y glaswellt nodweddiadol yn amrywio rhwng melynwyrdd/brown gyda streipiau neu gylchoedd du unionsyth. Ceir anifeiliaid hollol ddu ambell waith.

Dyma'r ymlusgiad tir mwyaf yn Ne Cymru.

Mae gan nadroedd y glaswellt lygaid melynwyrdd gyda chanhwyllau llygaid du crwn.

Mae nadroedd y glaswellt fel arfer yn tyfu i fod rhwng 65 ac 80 cm o hyd, er mai'r record ym Mhrydain oedd 180cm.

Mae'r nadroedd yn gaeafgysgu, fel arfer o dan y ddaear megis mewn hen dyllau cwningod.

Nid yw neidr y glaswellt yn wenwynig. Ei hunig amddiffyniad yw rhyddhau hylif drewllyd a/neu ffugio bod yn farw. Prin y byddant yn brathu a dim ond pan fydd popeth arall wedi methu.

Mae'r fenyw yn dodwy rhwng 8 a 40 ŵy ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf. Mae'n rhaid i dymheredd yr wyau barhau ar o leiaf 21° C ac maent yn deor ar ôl oddeutu 10 wythnos.

Ceir nadroedd y glaswellt ledled Cymru a Lloegr, ond maent bron yn absennol o'r Alban. Nid ydynt byth i'w gweld yn Iwerddon; nad oes ganddi'r un neidr yn byw yno.

Mae'r neidr yn ysglyfaethwr hela/ymosod, gan fwyta'r ysglyfaeth yn fyw heb ddefnyddio cywasgu corfforol.

Mae benywod yn dodwy wyau yn ystod mis Mehefin neu fis Gorffennaf, gan chwilio am fannau sy'n creu gwres megis pentyrrau o sglodion pren, llystyfiant neu wrtaith i wneud hynny, ac yn aml yn defnyddio tomenni compost. Mae nadroedd bach y glaswellt yn ymddangos o ganol mis Awst ymlaen.

Mae gan bob neidr glaswellt 'goler' melynaidd ar gefn ei gwddf.

Fel pob ymlusgiad, mae gan nadroedd y glaswellt waed oer. Mae hyn yn golygu eu bod yn dibynnu ar ffynonellau gwres fel yr haul neu lystyfiant yn pydru er mwyn cynhesu.

Un ffordd hawdd o helpu nadroedd glaswellt yw darparu safleoedd dodwy wyau a gaeafgysgu digyffro.

Yn bennaf, mae nadroedd y glaswellt yn bwyta amffibiaid a physgod bach ac fe'u ceir yn aml yn agos at ddŵr ffres. Maent yn nofwyr cryf.

# Neidr y Glaswellt

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol

# Y ______________________

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol